Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Cymru
Wales **Biodiversity** Partnership

DILYNWCH ni ar TWITTER

Gwefan

***Annwyl aelod o Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, croeso i newyddlen mis Mehefin 2018***

Y Newyddion Diweddaraf



## Adolygiad o Boblogaeth a Statws Cadwraethol Mamaliaid Prydain: Crynodeb Technegol

Mae bron i un o bob pum rhywogaeth o famaliaid ym Mhrydain yn wynebu lefel uchel o ddifodiant, yn ôl yr adolygiad cynhwysfawr cyntaf o'u poblogaethau ers mwy nag 20 mlynedd a lansiwyd gan The Mammal Society.

Aseswyd maint poblogaeth, amrywiaeth, tueddiadau tymhorol a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol ar gyfer y 58 o famaliaid daear Prydain. Mae'r draenog, y wiwer goch a llygoden y dŵr, ymysg eraill, i gyd wedi dioddef dirywiad sylweddol iawn yn un ai maint eu poblogaeth neu eu hamrywiaeth, tra gwelwyd cynnydd yng nghynefin daearyddol a maint poblogaethau'r dyfrgi a'r ystlum pedol mwyaf a lleiaf, ymysg eraill.

Lluniwyd yr adroddiad gan The Mammal Society dan gytundeb ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru, Natural England a Scottish Natural Heritage.

*Wyddoch chi fod gan Brydain 44 rhywogaeth frodorol gyrhaeddodd cyn ffurfio'r Sianel a 58 i gyd o ganlyniad i gyflwyniadau hanesyddol a diweddar.*

The Mammal Society
*Llun © Margaret Holland*

## Microbelenni plastig mewn cynhyrchion cosmetig i'w gwahardd yng Nghymru

Bydd microbelenni plastig yn cael eu gwahardd o gynnyrch ystafell ymolchi fel gel ymolchi a phast dannedd yng Nghymru, wedi i aelodau'r Cynulliad gefnogi'r syniad.
Mae microbelenni plastig yn rhy fach i gael eu hidlo allan mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff ac maent yn llygru'r moroedd gan gael effaith andwyol ar fywyd y môr a threiddio i'r gadwyn fwyd.

Daw'r gwaharddiad i rym ar 30 Mehefin.

## Coetiroedd i Gymru: strategaeth

Sut ydym am ddiogelu a datblygu'n coetiroedd dros yr 50 mlynedd nesaf

Dolen

## Datganiad Ysgrifenedig- Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Dolen

## Morlyn Llanwol arfaethedig Bae Abertawe

Mae llywodraeth y DU wedi cyhoeddi datganiad ar y cynnig. Mae'r datganiad yn gwrthod yr achos economaidd dros y morlyn ar gyfer diwallu anghenion ynni am bris cost effeithiol. Rhagor o fanylion yma

## Wythnos Natur Cymru 2 -10 Mehefin 2018

Diolch o galon i bawb wnaeth helpu i wneud Wythnos Natur Cymru yn llwyddiant! Heb eich cefnogaeth a chyfraniad y cyhoedd, fyddai hyn ddim yn bosibl.

Caiff dyddiadau dathliadau Wythnos Natur 2019 eu rhyddhau maes o law.

Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Cymru
Wales **Biodiversity** Partnership

# NODI'R DYDDIAD

## CYNHADLEDD
## PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU




### DIGWYDDIAD RHAD AC AM DDIM
### ARCHEBU'N AGOR YN FUAN

#WBPConf2018

**Ymunwch â ni ar gyfer:**

- **Diweddariadau a mentrau i hybu bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yng Nghymru**
- **Sgyrsiau cyfarfod llawn gydag ystod o siaradwyr**
- **Sesiynau rhyngweithiol, gweithdai, stondinau arddangos, a mwy**
- **Rhwydweithio, cydweithio a rhannu arfer da**
- **Arddangosfeydd i'ch ysbrydoli yn yr Amgueddfa Genedlaethol**

**Rydym ni'n gwahodd cynigion ar gyfer sgyrsiau, gweithdai, posteri a stondinau arddangos sy'n amserol, yn llawn gwybodaeth ac yn berthnasol i Gymru. E-bostiwch ni, gan gynnwys crynodeb byr (250 gair ar y mwyaf) erbyn 4 Gorffennaf**

*Mae croeso i unrhyw un â diddordeb mewn bioamrywiaeth a gweithredu ecosystemau yng Nghymru i fynychu i drafod, rhannu syniadau a chydweithio ar fioamrywiaeth a gweithredu ecosystemau yng Nghymru. Bydd pobl allweddol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn bresennol ac mae'r gynhadledd yn falch iawn o groesawu Gweinidog yr Amgylchedd, Hannah Blythyn ar fore'r diwrnod cyntaf. Croesewir cynadleddwyr i fynychu'r gynhadledd dros ddeuddydd neu ar ddiwrnod o'u dewis.*

**Ewch i wefan WBP i gael newyddion diweddaraf am y gynhadledd a manylion pellach**

walesbiodiversitypartnership@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.biodiversitywales.org.uk
WBP_wildlife

## Diweddariad Polisi

Y Camau Nesaf at Adfer Natur

Mae Grŵp Gweithredu'r Cynllun Adfer Natur (NRAP) wedi ei sefydlu i lywio a gyrru trosglwyddiad a gweithrediad yr NRAP ar lefel leol a chenedlaethol. Cyfarfu'r grŵp am y tro cyntaf ar 3 Awst. Ffocws y cyfarfod cyntaf oedd cadarnhau rôl y grŵp a phennu ei flaenoriaethau cychwynnol. Mae gan y grŵp aelodaeth eang o Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, cyrff anllywodraethol a mudiadau eraill o'r sectorau cyhoeddus a phreifat.

Caiff grwpiau gorchwyl a gorffen arbenigol eu comisiynu gan Grŵp Gweithredu'r Cynllun Adfer Natur (NRAP) i symud tasgau penodol yn eu blaen. Cytunwyd ar y grwpiau gorchwyl a gorffen arbenigol cychwynnol a byddant yn canolbwyntio ar:

- Defnydd tir i'r dyfodol
- Adolygu a diweddaru Rhan II yr NRAP
- Rhywogaethau estron goresgynnol (Rhywogaethau Estron Goresgynnol (mae hwn yn grŵp sy'n bodoli eisoes gydag angen parhaus oherwydd strategaethau a sbardunau penodol INNS ac, o'r herwydd, bydd yn parhau fel gweithgor)
- Meini prawf rhestr Adran 7 (grŵp sy'n bodoli eisoes)
- Canllawiau Adran 6
- Rhaglen BEERN
- Gwaith adfer a chyd-nerthu
- Cynllunio a bioamrywiaeth
- Cynhadledd WBP

Bydd y Grŵp Gweithredu'n casglu adborth oddi wrth y grwpiau hyn ac yn cyflwyno argymhellion i Weinidogion Llywodraeth Cymru a CNC, yn enwedig ar Ddatganiadau Ardal, Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) a tharged CBD o atal colli bioamrywiaeth erbyn 2020.

Cyfarfu grŵp gweithredu NRAP ddiwethaf ar Ebrill 18fed 2018

## Deddfwriaethau a strategaethau allweddol

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

I gael rhagor o fanylion am Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) a rhestr o ddogfennau ategol cliciwch yma.

Lluniwyd y Canllaw hwn gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo a chefnogi awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (dyletswydd A6) wrth gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, a gyflwynwyd gan Adran 6 o dan Ran 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Y Polisi ar Adnoddau Naturiol yw'r ail elfen statudol sy'n deillio o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)

Mae'r Polisi hwnnw'n hoelio sylw ar reoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy, er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r

polisi'n amlinellu tair Blaenoriaeth Genedlaethol:

- Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur,
- Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon,
- Gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar leoedd.

Y camau nesaf

Y Polisi ar Adnoddau Naturiol sy'n pennu'r cyd-destun ar gyfer Datganiadau Ardal, a fydd yn cael eu paratoi gan Cyfoeth Naturiol Cymru, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n lleol ar sail y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

## Datganiadau Ardal – Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Holiadur i Randdeiliaid

Mae CNC wedi llunio arolwg ar-lein er mwyn deall yn well y ffyrdd yr hoffech inni eu defnyddio i'ch hysbysu ynghylch yr hyn sy'n digwydd yn y broses Datganiadau Ardal. Mae CNC yn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio a thargedu eu cyfathrebu a'n hymgysylltu o safbwynt Datganiadau Ardal.

Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2016

Mae'r adroddiad ar gael yn awr i'w lawrlwytho. Mae'r adroddiad yn datgan cyflwr cyfoeth naturiol Cymru.

Mae'r adroddiad yn amlinellu sefyllfa adnoddau naturiol Cymru. Mae'n asesu i ba raddau y mae adnoddau naturiol yng Nghymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, ac yn argymell ffordd ragweithiol o greu cydnerthedd. Ac – am y tro cyntaf – mae'r adroddiad yn creu'r cysylltiad rhwng cydnerthedd adnoddau naturiol Cymru a lles pobl Cymru.

Mae arnom eisiau clywed gennych os oes gennych dystiolaeth am sefyllfa adnoddau naturiol yng Nghymru, cydnerthedd ecosystemau, neu eu cyfraniad at les. Mae arnom hefyd eisiau clywed eich syniadau am sut i wella ein prosesau asesu ac adrodd, a allai ein cynorthwyo i ddatblygu Adroddiadau ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn y dyfodol. Hefyd maen nhw eisiau clywed eich syniadau chi ar gyfer sut i wella ein proses asesu ac adrodd yn ôl, a allai ein helpu ni i ddatblygu SoNaRRs yn y dyfodol. Cysylltwch â ni ar sonarr@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

I gael manylion am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) cliciwch yma

Mae swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi cynhyrchu adroddiad 'Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory' sy'n amlygu'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer y dyfodol, wedi ei yrru gan yr angen i newid y modd yr ydym yn trosglwyddo gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n dilyn cyhoeddi 19 asesiad llesiant gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae 'Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol <https://futuregenerations.wales/cy/documents/mae-fframwaith-cenedlaethaur-dyfodol/> wedi cael ei greu i gefnogi'r sector cyhoeddus ac eraill yng Nghymru i ddarparu prosiectau a seilwaith addas ar gyfer y dyfodol. Bydd defnyddio'r fframwaith hwn o gymorth i ddatblygu prosiectau mewn ffordd integredig a chydweithredol, yn seiliedig ar beth mae pobl ei angen a chan gefnogi llesiant cymunedau heddiw yn ogystal ag yn y tymor hir. Dyma fersiwn cyntaf y fframwaith a byddwn yn parhau i

ddatblygu a chreu fersiynau wedi'u diweddaru'n seiliedig ar adborth gan ddefnyddwyr. Os ydych chi wedi darllen neu ddefnyddio'r Fframwaith anfonwch eich adborth atom ni ar contactus@futuregenerations.wales

Cymerwch gip ar wefan y CCD cynlluniauargyfer y dyfodol, Adroddiad Blynyddol, ac adroddiad 'Llesiant yng Nghymru: cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory'.

Cynllun Adfer Natur
I gael rhagor o fanylion yn amlinellu amcanion y Cynllun Adfer Natur ac esboniad o'r rhannau sydd ynddo, ewch i wefan Llywodraeth Cymru.

Diweddariad y Tasglu Peillwyr
Cyfarfu'r Tasglu Peillwyr ar Fawrth 23ain yn y Drenewydd. Mae'r pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf ar gael ar wefan PBC. Mae Cloriannu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr yng Nghymru'n cael ei gynnal ar hyn o bryd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Tasglu Peillwyr.
I gyfrannu at waith y Grŵp Peillwyr yng Nghymru, ac am ragor o fanylion am weithgareddau'r grŵp, cysylltwch â Bio.Diversity@gov.wales neu ewch i'r adran peillwyr ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.



# Seasearch Cymru 2017 Adroddiad

Mae Seasearch wedi cynhyrchu adroddiad cryno o'r safleoedd morol a arolygwyd ac mae'n dynodi rhywogaethau a chynefinoedd prin neu anghyffredin a welwyd yng Nghymru'n ystod 2017. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth yng Nghymru. Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys yr holl ddata manwl gan fod hynny wedi ei gofnodi ar gronfa ddata y Cofiadur Morol a'i gyflwyno i Gyfoeth Naturiol Cymru i'w ddefnydd fel rhan o'i waith cadwraeth

morol. Mae'r data ar rywogaethau ar gael ar-lein hefyd trwy'r *National Biodiversity Network*.

*Testun wedi'i addasu o ffynhonnell Seasearch*
*Llun © Kate Lock Seasearch*

## Rhagoriaeth mewn Cynllunio er budd yr Amgylchedd Naturiol - Cyngor Sir Gâr yn ennill gwobr arobryn

Llongyfarchiadau mawr iawn i Gyngor Sir Gâr ar eu llwyddiant yng Ngwobrau Cynllunio Cenedlaethol RTPI. Enillodd Prosiect CCA Caeau Mynydd Mawr a Britheg y Gors y wobr bwysig hon yn y dosbarth 'Rhagoriaeth mewn Cynllunio er budd yr Amgylchedd Naturiol'. Gallwch ddarllen mwy am y prosiect (tudalen 16) ar wefan RTPI ynghyd ag enghreifftiau eraill ble mae cynllunio wedi cyfrannu at yr amgylchedd ac iechyd a llesiant.

## Dydd Sadwrn 7fed Gorffennaf yw ein Diwrnod Gweirgloddiau Cenedlaethol!

Mae Cymru'n ymuno yn y dathliadau gyda'r digwyddiadau canlynol:

Bydd Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn dathlu'r gweirgloddiau gwych sydd ar y safle
Gweirgloddiau Gwych ar weirglodd wlyb ger Dolanog, Sir Drefaldwyn
BeeFest yng Ngardd Bodnant
Taith Gerdded Gweirglodd Blodau Gwyllt yn *Dr. Beynon's Bug Farm*, Tyddewi, Sir Benfro
Diwrnod Gweirgloddiau Cenedlaethol yn Llanerchaeron, Ceredigion
Diwrnod Gweirgloddiau Cenedlaethol yng Nghastell Y Waun
Diwrnod Agored Gweirgloddiau Cenedlaethol, Gerddi Bro Ddyfi, Powys

Gallwch weld yr holl ddigwyddiadau ar wefan Diwrnod Gweirgloddiau Cenedlaethol

or email emma.douglas@pontcymru.org

Entry fee to the National Botanic Garden applies

WWW.PONTCYMRU.ORG

PORI YN RHAGORI
GRAZING IS AMAZING

Adfer Parcdir Godidog
Regency Restoration

# Diwrnod Gweirgloddiau

Ymunwch â ni i ddathlu'n gweirgloddiau hardd. Cewch gwrdd â'r anifeiliaid sy'n pori yma, rhoi cynnig ar ddefnyddio pladur, dysgu am blanhigion sy'n tyfu mewn gweirgloddiau a gweld tractorau a pheiriannau gwneud gwair traddodiadol Clwb Henebion Dyffryn Tywi.

Cewch weld sut y gall sgiliau treftadaeth ddiogelu'n dyfodol.







**Dydd Sul 1 Gorffennaf 2018**

**11am – 4pm**

**Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthne, Sir Caerfyrddin**

Am ragor o wybodaeth ewch i:

**www.pontcymru.org**

**neu anfonwch ebost at emma.douglas@pontcymru.org**

Bydd tâl mynediad yr Ardd Fotaneg Genedlaethol yn berthnasol

WWW.PONTCYMRU.ORG

# Rhywogaeth y Mis



*Mae rhywogaeth y mis yn nodwedd newydd a gyflwynir mewn cydweithrediad â Chanolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol yng Nghymru. Gallwch gyflwyno cofnodion am rywogaethau i roi sylw iddynt, neu unrhyw rywogaeth arall (dim ots pa mor gyffredin yw hi) i un o'r pedair Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol - gyda phob un ar gyfer ardal benodol o Gymru. I weld pa Ganolfan sydd ar gyfer eich lleoliad daearyddol chi, cliciwch **yma***

***Rhywogaeth y Mis Ionawr a Mai: Gwennol Ddu Apus Apus***

Weithiau, caiff y Wennol Ddu ei chamgymryd am y Wennol, sy'n llai o faint. Mae eu siâp wrth hedfan yn debyg iawn, gan eu bod yn gymharol lyfn gyda chynffon fforchog. Ond mae'r Wennol Ddu yn dipyn tewach gydag adenydd hirach, siâp cryman.

Ymwelwyr haf yw'r rhain, byddant yn cyrraedd Prydain ym mis Mai i fridio gan adael unwaith eto ym mis Awst i dreulio'r gaeaf yn eu hendref yn Affrica. Heblaw am y gwcw, dyma un o'n hymwelwyr haf sy'n aros am y cyfnod byrraf!

Bydd y Wennol Ddu fel arfer yn nythu mewn tyllau a bylchau yn nhoeau hen adeiladau mewn pentrefi mawr, trefi a dinasoedd. Mae eu niferoedd wedi dirywio dros 25% yn y degawd diwethaf oherwydd diffyg safleoedd nythu wrth i adeiladau hŷn un ai gael eu hadnewyddu neu eu chwalu.

*Am fwy o wybodaeth am y Wennol Ddu, ymwelwch â BirdFacts BTO a'r Wider Countryside Report*

*Wyddoch chi fod y Wennol Ddu yn y categori melyn yn yr asesiad diweddaraf o Adar y DU sy'n destun Pryder Cadwraethol a bod ei niferoedd wedi dirywio 59% yng Nghymru rhwng 1995-2015.*

*Testun wedi'i addasu o ffynhonnell BTO*

*Llun © BTO*

# Ffocws ar Arolygon



## Bioblitz DU 2018 Chros Packham
## 14 – 23 Gorffennaf - Bioblitz(s) Cymru 20 & 21 Gorffennaf

*Nid yw Gwarchodfeydd Natur yn Ddigon!*

*Mae Bioblitz Chris Packham yn dod i Gymru! Am ddeg niwrnod bydd Chris a'i dîm o arbenigwyr yn ymweld â 50 o safleoedd bywyd gwyllt yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Lloegr a Chymru i dynnu sylw at y graddau y mae bywyd gwyllt y genedl dan fygythiad.*
*Mae gan yr ymgyrch Bioblitz ddiben gwyddonol a chofnodir canlyniadau'r archwiliad 2018 hwn i greu meincnod; bydd hyn yn helpu i fesur y cynnydd a chwymp yn nifer y gwahanol rywogaethau yn y dyfodol.*

## Arolwg RSPB Swift

Pwrpas yr arolwg hwn yw cofnodi lleoliadau safleoedd nythu gwenoliaid du ledled y DU. Yna gall cynllunwyr, penseiri, ecolegwyr a datblygwyr awdurdodau lleol ddefnyddio'r wybodaeth hon i ganfod pa lefydd gwenoliaid du sydd wedi'u lleoli o gwmpas y wlad ac felly'n gallu lliniaru i amddiffyn gwenoliaid du sy'n bridio yn ystod datblygu adeiladau.

Ym Morgannwg, mae Alan Rosney, Cydlynydd Prosiect Gwenoliaid Du Morgannwg wedi cychwyn prosiectau gyda phartneriaid i godi tyrau gwenoliaid du mewn tyrau eglwys a lleoliadau addas eraill. Edrychwch am y tŵr gwenoliaid du newydd os ydych chi'n cerdded neu'n beicio ar hyd morglawdd Bae Caerdydd yr haf hwn!

## Cynllun Monitro Planhigion Cenedlaethol

Mae'r Cynllun Monitro Planhigion Cenedlaethol (NPMS) yn gynllun monitro planhigion, seiliedig ar gynefin, sy'n anelu i gasglu data er mwyn darparu arwydd blynyddol o newidiadau i amrywiaeth a helaethrwydd planhigion yn y DU. Caiff y data yma ei gasglu gennych chi, ein gwirfoddolwyr amhrisiadwy. Yna, caiff ei ddadansoddi gan wyddonwyr a bydd yn eu galluogi i gynnal cyfrifiad stoc blynyddol o blanhigion gwyllt y DU, cyn cyflwyno'r canlyniadau i'r llywodraeth.

Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn natur ac sy'n gallu adnabod planhigion, neu sy'n awyddus i ddysgu, gymryd rhan. Fel gwirfoddolwr, dynodir 'llecyn' ar eich cyfer ble byddwch yn cofnodi planhigion sy'n 'rywogaethau dangosol' ar bum plot mewn cynefinoedd lled-naturiol.

Mae 263 sgwâr wedi eu dosbarthu yng Nghymru eisoes, mae 142 yn cael eu hastudio gan adael 54% o sgwariau ar gael i unrhyw un sydd â diddordeb ymuno yn y gwaith y tymor hwn. Cadwch lygad am ddigwyddiadau hyfforddi NPMS yng Nghymru i weld sut y gallwch gymryd rhan.

## Helfa Fawr Blodau Gwyllt Prydain 2018

Hoffech chi allu adnabod eich blodau gwyllt ond ddim yn siŵr ble i ddechrau? Dyma gynghorion i'ch helpu. Gallwch hefyd gymryd rhan yn yr awr Blodau Gwyllt sy'n digwydd rhwng 8-9pm bob nos Sul, ble gallwch rannu lluniau o flodau a welwyd yn tyfu'n wyllt ym Mhrydain ac Iwerddon.

## Cynllun Monitro Peillwyr y DU (PoMS)

Mae'r PoMS yn gofyn am gymorth gwirfoddolwyr i gasglu data ar bryfed peillio, er mwyn helpu i hysbysu gwaith cadwraeth. Mae dwy ffordd o gymryd rhan. Un yw cynnal Cyfrifiad Blodau-Pryfed wedi ei amseru am 10 munud. Gall unrhyw un gymryd rhan rhwng mis Ebrill a Medi, mewn unrhyw leoliad ble mae blodau a phryfed, a darperir canllaw arolwg llawn.

Mae angen grŵp llai o wirfoddolwyr i helpu gyda chynnal arolygon systematig ar hapsafleoedd ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban. Bydd hyn yn golygu 'mabwysiadu' sgwâr arolwg 1km o faint, cwrdd gydag aelodau o dîm PoMS ar y safle ac ymweld â'r sgwâr dair gwaith wedi hynny'n ystod yr haf i gasglu pryfed gyda maglau padell yn llawn dŵr.

Os hoffech chi wirfoddoli, e-bostiwch *poms@ceh.ac.uk* ac ymwelwch â'r wefan am fwy o fanylion, yn cynnwys fideos byr sy'n cyflwyno dau arolwg PoMS.

## BeeWalk

BeeWalk yw'r cynllun cofnodi cenedlaethol sy'n cael ei redeg gan y Bumblebee Conservation Trust (BBCT) er mwyn monitro nifer y cacwn ledled y DU. Byddai'r arolwg yn amhosib heb wirfoddolwyr sydd, unwaith y mis rhwng misoedd Mawrth a Hydref, yn cerdded llwybr penodol o'u dewis (yn gyffredinol, ond heb fod yn angenrheidiol, rhyw filltir o hyd) gan adnabod a chyfrif cacwn ac anfon eu cofnodion atom ni.

Mae'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu gan wirfoddolwyr BeeWalk yn rhan greiddiol o fonitro sut mae poblogaethau o wenyn yn newid gydag amser, a bydd yn galluogi'r BBCT i ganfod rhybuddion cynnar o ddirywiad y boblogaeth. Bydd yr holl ddata gaiff eu casglu'n cyfrannu at fonitro tymor hir pwysig ar newidiadau mewn poblogaethau o gacwn fel ymateb i newidiadau mewn defnydd tir a newid hinsawdd ac, yn y pen draw, fel sail i sut rydym yn rheoli cefn gwlad.

Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru ewch i www.beewalk.org.uk neu anfonwch e-bost i beewalk@bumblebeeconservation.org

Mae gan BBCT amrywiaeth o adnoddau ar ein gwefan i'ch helpu i ddechrau adnabod cacwn http://bit.ly/1FWqw2r a hefyd gallwch roi lluniau ar ein gwefan bartner, BeeWatch http://bit.ly/beewatch i'ch helpu i adnabod cacwn.

## Chwilio Mawr am Wymon!

Mae gwymon yn bwysig. Maen nhw'n ffurfio cynefinoedd, yn creu cysgod ac yn darparu bwyd i amrywiaeth enfawr o organebau morol, a hefyd yn cefnogi meithrinfeydd pysgod a physgodfeydd masnachol. Gallwch helpu MCS drwy gofrestru ar gyfer eich canllaw

Chwilio Mawr am Wymon a byddwch yn cyfrannu at waith ymchwil hanfodol drwy gael hwyl ac archwilio eich traeth creigiog lleol.

### Arolygon OPAL

Beth am gymryd rhan yng ngweithgareddau gwanwyn OPAL? Gellir cynnal Arolwg Aer OPAL ar unrhyw adeg o'r flwyddyn a thrwy gymryd rhan yn Arolwg Aer OPAL cewch ddysgu am ansawdd yr aer yn eich ardal chi a helpu ein gwyddonwyr i ateb cwestiynau pwysig am effeithiau ansawdd aer ledled y DU. Mae'r canllawiau defnyddiol yn cynnwys llyfr nodiadau maes a thaflenni adnabod cennau a choed. Mae'r adnoddau ar gael yn y Gymraeg hefyd.

Mae OPAL Data Explorer wedi'i lansio'n ddiweddar fel eich bod yn gallu gweld y data amgylcheddol sydd wedi'u cyflwyno gan gyfranogwyr OPAL ar gyfer pob un o Arolygon cyfredol OPAL.

## Ffocws ar Ddigwyddiadau



### Ymgynghoriad Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

**Gweminar 2 Gorffennaf ac 2pm**

Dolen

## Diwrnod Gweirgloddiau Cenedlaethol 7 Gorffennaf

**Digwyddiadau ar hyd a lled Cymru – gweler** y wefan

## *Y Cyfrifiad Glöynnod Byw 20 Gorffennaf - 12 Awst*

Manylion pellach

## Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

*19 ac 20 Medi, Amgueddfa Cymru, Caerdydd*
Manylion pellach

## Cynhadledd CIEEM Cymru 2018

Adfer Natur: Dulliau ailgyflwyno rhywogaethau a dad-ddofi tir
Dyddiad Dyddiadur: 16 Hydref
Park Inn, Caerdydd
Manylion pellach

**Blwyddyn y Môr**
Yn 2018 rydyn ni'n dathlu arfordir eithriadol Cymru ac yn gwahodd ymwelwyr i ddarganfod profiadau epig newydd ar hyd ein glannau, gyda digwyddiadau ac atyniadau arbennig drwy gydol y flwyddyn. Blwyddyn y Môr ydi hi eleni.

Dyddiadau Calendr Natur 2018

*Llun © Sean McHugh*

# Ymgynghoriadau

**Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: Y prif faterion, opsiynau a'r opsiwn a ffefrir**
Rydym eisiau eich barn ar gam nesaf datblygiad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC).

Dolen i'r ymgynghoriad
Dyddiad cu'r ymgynghoriad: 23 Gorffennaf

**Egwyddorion a Llywodraethu Amgylcheddol wedi Gadael yr UE**
Mae Defra yn ceisio sylwadau ar Egwyddorion a Llywodraethu Amgylcheddol wedi i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd.

Sylwer: Tra bo'r ymgynghoriad yn ymwneud â llywodraethu amgylcheddol yn Lloegr yn unig, mae Defra'n gweithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig ar fframweithiau cyffredin wedi gadael yr UE. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn rhagfarnu unrhyw rai o'r trafodaethau hyn.

Dolen i'r ymgynghoriad
Dyddiad cu'r ymgynghoriad: 2 Awst

## Swydd wag

Swydd cyfnod penodol yn ystod cyfnod mamolaeth
Rhagor o fanylion https://www.mcsuk.org/jobs/2018_06_Policy_Officer_Wales_Maternity
Dyddiad cau 16 Gorffennaf

## Biodiversity News

Mae rhifyn 77 o Biodiversity News bellach wedi'i uwchlwytho i wefan y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur, a gellir ei weld yma

Gellir gweld rhifynnau blaenorol o Newyddion Biodiversity News yma

Bydd rhifyn yr Hydref o Newyddion Bioamrywiaeth / Biodiversity News allan ganol mis Tachwedd.

Mae croeso arbennig i erthyglau sy'n tynnu sylw at brosiectau o Gymru.

Ceisiwch gadw'r erthygl i ryw 1 i 2 ochr A4 ac atodi lluniau wrth yr e-bost. Gallwch gyflwyno erthyglau i: biodiversitynews@defra.gsi.gov

## Cyllid



### Newyddlen Cyllid

Mae diweddariad Cyllid cyfredol wedi'i lunio gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac mae ar gael ar eu **gwefan**

### Rhaglen EU LIFE - galwad am gynigion

Mae rhaglen EU LIFE wedi lansio cais am gynigion ar gyfer prosiectau yn 2018 . Eleni, bydd y rhaglen yn buddsoddi'n agos i €400miliwn tuag at y gwaith o warchod natur, diogelu'r amgylchedd a gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd. Mae rhaglen LIFE wedi symleiddio'r broses ymgeisio ar gyfer prosiectau traddodiadol ar Yr Amgylchedd a Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon, a Natur a Bioamrywiaeth. Fel rhan o'r drefn ymgeisio dwyran, newydd hon bydd gofyn i ymgeiswyr amlinellu eu syniad mewn nodyn cysyniad

erbyn canol Mehefin. Yna, bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cyflwyno cynnig prosiect llawn yn hydref 2018.
Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno nodyn cysyniad y cam cyntaf ar gyfer Natur a Bioamrywiaeth yw **14 Mehefin 2018**

Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) yw'r Pwynt Cyswllt Cenedlaethol y DU ar gyfer cyllid LIFE ac fe gynghorir yn gryf ar sefydliadau sydd â diddordeb i ofyn am gyngor ac arweiniad gan y JNCC.

Mae manylion llawn holl themâu'r prosiectau i'w cael ar wefan EU LIFE.

**Cynllun Cymunedau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi**
Ar y Gweill! Rhaglen grant newydd i helpu cymunedau sy'n byw o fewn 5 milltir i safle tirlenwi neu orsafoedd trosglwyddo gwastraff penodol i gymryd camau dros eu hamgylchedd lleol yn agor ar 30ain Ebrill.

Bydd angen i sefydliadau fod wedi eu cofrestru gydag eDendro Cymru. Mae manylion pellach ar gofrestru gydag eDendro Cymru, a'r cynllun grantiau'n gyffredinol, ar gael ar wefan WCVA.

Cefndir

Fis Ebrill 2018 datganolwyd casglu treth tirlenwi i Gymru. Bydd cyfran o'r arian sy'n cael ei gasglu o'r cynllun hwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu mentrau o fewn y cymunedau yr effeithir arnynt gan eu bod yn agos i safle tirlenwi neu orsaf drosglwyddo. Bydd cyllid grant yn lansio ar gyfer ceisiadau ar 30 Ebrill 2018.

Bydd WCVA yn gweinyddu'r grantiau fydd yn cefnogi gweithgareddau o dan dair thema:

- **Bioamrywiaeth**
- **Lleihau Gwastraff a Dargyfeirio Gwastraff o Safleoedd Tirlenwi**
- **Gwelliannau Amgylcheddol Ehangach**

Mae'r thema bioamrywiaeth fel a ganlyn: - diogelu a hyrwyddo rhywogaeth benodol neu gynefin penodol lle y gwelir bioamrywiaeth naturiol:

1.Helpu rhywogaethau brodorol, peillio a phlannu

2.Adfer, cynnal a gwella cynefinoedd naturiol

3.Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth ymwreiddio

**Cyllid Cymunedol Tesco a weinyddir gan Groundwork**
Mae grantiau o £5,000, £2,000 a £1,000 ar gael ar gyfer gwella gofod agored sydd o fudd i'r gymuned. Mae'r prosiectau cymwys yn cynnwys gofod fel parciau bychain, tiroedd ysgol, rhandiroedd, cyfleusterau chwaraeon, llwybrau coetir a gerddi cymunedol. I gael rhagor o fanylion ewch i'r wefan. Cofrestrwch i dderbyn yr e-newyddlen i sicrhau eich bod yn derbyn hysbysiadau.

**Cronfa Dreftadaeth y Loteri**

Mae CDL Cymru yn cynnig gweithdai sy'n canolbwyntio ar wahanol raglenni cyllido felly bydd rhaid i chi benderfynu pa un sydd fwyaf perthnasol i chi. Does dim rhaid bod â phrosiect i fynychu - dewch draw i gael mwy o wybodaeth. Mae'r Gweithdai Cefnogaeth Ariannol yn gyfle gwych i chi gael gwybod am ein cyllid, dysgu am ein canlyniadau, cael cyngor ar sut i wneud cais da a rhwydweithio gyda sefydliadau eraill o'ch ardal. Hefyd cewch gyfle i gyfarfod tîm datblygu CDL Cymru.

**Cyllid Dŵr Cymru / Welsh Water Cynllun Cyllido'r Cyfarwyddyd Fframwaith Dŵr**

Mae'r cynllun yn darparu cyfraniadau ariannol i grwpiau i ymgymryd â phrosiectau sy'n gallu dangos y byddant yn sicrhau gwelliannau i ddyfroedd mewndirol, daear neu arfordirol. Yn eu tro mae'r prosiectau'n helpu i roi amcanion Cyfarwyddyd Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd ar waith yn ardal weithredol Dŵr Cymru gyda'r nod o wella ansawdd dŵr.

Mae'r cynllun yn darparu cyfraniadau ariannol i grwpiau i ymgymryd â phrosiectau sy'n gallu dangos y byddant yn sicrhau gwelliannau i ddyfroedd mewndirol, daear neu arfordirol. Yn eu tro mae'r prosiectau'n helpu i roi amcanion Cyfarwyddyd Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd ar waith yn ardal weithredol Dŵr Cymru gyda'r nod o wella ansawdd dŵr.

Rhaid i ymgeiswyr wneud y canlynol:

- disgrifio sut mae eu cynnig yn berthnasol i weithrediadau neu asedau Dŵr Cymru;
- efallai bod cyswllt uniongyrchol rhyngddynt a lleihau effeithiau'r gweithredu ar asedau neu ryddhau;
- neu'n cynnwys gwaith 'i fyny afon' neu waith arall a allai ysgafnu'r baich neu'r risg o orfod gwneud gwelliannau yn asedau Dŵr Cymru.

Cynllun Cyllido Rhywogaethau Estron Ymledol

Nod y gronfa hon yw atal twf ac ymlediad rhywogaethau estron ymledol sy'n bygwth planhigion ac anifeiliaid brodorol. Bydd cyfanswm o £60,000 ar gael ar gyfer prosiectau a fydd yn galluogi'r cwmni i gefnogi grwpiau lleol i weithredu i atal, lleihau, dileu neu reoli'r risg o rywogaethau estron.
I gael rhagor o wybodaeth am y ddwy gronfa ewch i'r ddolen ganlynol.

*Llun © Sean McHugh*